**Alun Davies AC / AM**
**Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd**
**Minister for Natural Resources and Food**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref Biodiversity
Ein cyf/Our ref Biodiversity

Alun Ffred Jones AC
Cadeirydd, Pwyllgor yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1NA

25 Mehefin 2014

Annwyl Alun,

**Ymateb i Bwyllgor yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd ar Fioamrywiaeth**

Diolch yn fawr i chi am eich llythyr dyddiedig 3 Mehefin 2014 ynghylch bioamrywiaeth.

Cyfeiriaf at eich cwestiynau fel yr ydych wedi'u rhifo yn eich llythyr.

**1.3 – Amserlen y Cynllun Adfer Natur a'i berthnasedd i'r Rhaglen Rheoli Adnoddau Natur.**

Gallaf gadarnhau bod Bwrdd Strategaeth Bioamrywiaeth Cymru, partneriaeth rhwng Cyfoeth Naturiol Cymru, undebau'r ffermwyr, Awdurdodau Lleol, Llywodraeth Cymru a'r trydydd sector wrthi'n paratoi Cynllun Adfer Natur i Gymru. Bydd y Cynllun Adfer Natur yn gosod allan ein hamcanion pwysicaf a'r gweithredoedd y byddwn yn eu cynnal i'w gwireddu. Byddant yn cyfateb i dargedau Bioamrywiaeth Aichi 2020.

Rwyf am lansio ymgynghoriad ar y Cynllun Adfer Natur yng Nghynhadledd Bioamrywiaeth Cymru ar 10 Medi 2014 a byddwn yn cyhoeddi'r cynllun terfynol yn gynnar yn 2015.

Mae'r rhaglen Rheoli Adnoddau Naturiol yn gyfle inni ystyried cryfder bioamrywiaeth a'r buddiannau a'r cyfleoedd niferus y gall elwa arnynt trwy edrych ar bob agwedd o safbwynt ehangach. Trwy ei gyflwyno ym Mil yr Amgylchedd, bydd hynny'n gwireddu ein hymrwymiadau rhyngwladol o ran prif ffrydio bioamrywiaeth ac ecosystemau yn ein penderfyniadau ac ymgysylltu â'r cyhoedd. Er bod angen llawer o weithgarwch cadwraeth o

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.Alun.Davies@wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)* *Printed on 100% recycled paper*

hyd i warchod rhywogaethau a safleoedd a bod llawer o gynlluniau ar lefel tirwedd eisoes ar y gweill, amcan y Cynllun Adfer Natur yw pontio rhwng yr hen ffordd draddodiadol o ymwneud â bioamrywiaeth a'r ffordd newydd integredig o reoli adnoddau naturiol yn ôl ardal. Bydd bioamrywiaeth yn rhan annatod o unrhyw ddatganiad ar Adnoddau Naturiol Cenedlaethol.

**1.4 – Cyfrifoldeb am y ganolfan ddata.**

O ran y ganolfan ddata, gallaf gadarnhau mai Llywodraeth Cymru fydd yn arwain y prosiect hwn, gan weithio ar y cyd â CNC. Mae'r bartneriaeth wedi bod yn effeithiol iawn ac mae llawer wedi'i gyflawni. Mae'n dda gennyf gyhoeddi y bydd arddangosfa o'r ganolfan i'w gweld yn y Sioe Fawr.

**1.5 / 1.6 – Y Diweddaraf am yr archwiliad i fioamrywiaeth.**

Cafodd archwiliad o weithredoedd pob Adran o'r Llywodraeth mewn cysylltiad â bioamrywiaeth ei gynnal yn 2011. Dangosodd fod pob rhan o Lywodraeth Cymru yn gweithredu dros fioamrywiaeth a bod Adrannau'r Llywodraeth yn ystyried bioamrywiaeth wrth gynnal gweithgareddau allai gael effaith uniongyrchol ar fioamrywiaeth. Fodd bynnag, mae mwy o waith eto i'w wneud, er enghraifft o ran rheoli ein hystâd ein hunain ac integreiddio bioamrywiaeth wrth ddatblygu polisi.

Bydd y Cynllun Adfer Natur yn parhau i roi pwyslais ar integreiddio bioamrywiaeth yn ein polisïau a'n strategaethau ac mae'r rhaglen Rheoli Adnoddau Naturiol eisoes wedi dechrau ar y broses hon. Fel rhan o'r Cynllun Adfer Natur, cynhelir gwerthusiad cynhwysfawr ac amlhaenog o'r gweithredoedd bioamrywiaeth y bydd angen i adrannau ac asiantaethau Llywodraeth Cymru eu cynnal.

Cofion,



**Alun Davies AC / AM**
Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd
Minister for Natural Resources and Food